OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 791 (Cy.106)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Diwygio) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*10 Mawrth 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*13 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*30 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 220(1) a (2A) a 333(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Diwygio) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—

(a) ceisiadau a wneir ar 30 Ebrill 2012 neu ar ôl hynny; a

(b) Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 9 rhodder—

"**Applications for express consent**

9.—(1) An application for express consent must be made to the local planning authority.

(**1**) 1990 p.8. Diwygiwyd adran 220 gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5), adran 42(4). Diwygiwyd adran 333(1) gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 78 ac Atodlen 10, paragraff 32(12).

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan yr adrannau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1992/666, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.